Sôn am ein

# Codau Ymarfer Proffesiynol

wedi'u diweddaru

Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



## Beth ydych chi'n ei feddwl?

Ymgynghoriad ar gyfer pobl ifanc

## Helo

**Dylai pawb gael bywyd iach a hapus yn llawn cyfleoedd. Weithiau, mae pobl angen ychydig o help a chefnogaeth gyda hyn.**

Mae gweithwyr gofal cymdeithasol yn gwneud gwahaniaeth mawr ac yn gwneud llawer o bethau gwahanol. Maen nhw’n helpu pobl o bob oed i gadw'n iach ac yn eu cefnogi i fyw bywyd mor foddhaus â phosibl.

Gwyliwch y clip hwn am ofal cymdeithasol: youtube.com/watch?v=7DvLrs8dJsY&t=1s

# Ni yw Gofal Cymdeithasol Cymru

## Rydyn ni am wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ofal a chymorth yng Nghymru.

**Rydyn ni am sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn rhoi'r cymorth gorau posibl i bobl, pan fyddan nhw ei angen.**



**Felly, rydyn ni'n diweddaru ein Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol.** Bydd y cod hwn yn ei gwneud yn glir beth mae'n rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol ei wneud. Bydd hefyd yn helpu pawb i wybod beth y gallant ei ddisgwyl gan y gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n eu cefnogi. Mae hefyd yn sicrhau bod pawb yn cael eu trin â pharch, ac nad ydynt yn cael eu trin yn wahanol oherwydd pwy ydyn nhw neu eu cefndir.

**Codau Ymarfer Proffesiynol** – rhestr o safonau neu nodau mae'n rhaid i bawb sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol wybod amdanynt a'u dilyn.

**Rydyn ni hefyd yn diweddaru ein Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol.**
Mae'r Cod hwn i sicrhau bod pob gweithiwr gofal cymdeithasol:

- yn ddiogel i weithio a gofalu am bobl
- yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau cywir
- yn cael y gefnogaeth gywir gan eu cyflogwyr.

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi’n feddwl!

# Pam mae hyn yn bwysig

Mae llawer o lefydd sy'n cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol — awdurdodau lleol, y GIG, cwmnïau preifat, sefydliadau ac elusennau. Dyma rai enghreifftiau o weithwyr gofal cymdeithasol a'r hyn maen nhw'n ei wneud.

**Mae mwy na 60,000 o weithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru. Rydyn ni am sicrhau eu bod nhw i gyd yn rhoi'r gofal gorau posibl i bobl.**



# Y Cod Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol



# 1: Ynglŷn â pharchu safbwyntiau a hawliau pobl

Mae'n rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol allu dweud…

## Cwestiynau

**Ydy Safon 1 yn glir ac yn hawdd ei ddeall?**

Ydy ○ Nac ydy ○

**A oes unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen?**

Rwy'n parchu barn a dymuniadau pobl ac yn hyrwyddo eu hawliau a'u diddordebau.



Mae'n rhaid i mi wneud y canlynol:

- Rhoi pobl yn gyntaf a pharchu eu hurddas, eu preifatrwydd a'u diwylliant.
- Rhoi'r un lefel o gefnogaeth a pharch i bawb — heb wahaniaethu.
- Gwrando ar bobl, parchu eu dewisiadau a'u cefnogi nhw i gael eu clywed — yn yr iaith maen nhw am ei defnyddio.
- Sefyll dros hawliau pobl a herio gwahaniaethu — a rhoi gwybod amdano os byddaf yn ei weld.

**Hawliau** — Mae gan bawb hawliau, ni waeth pwy ydyn nhw. Nodir hawliau plant yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).

Mae **gwahaniaethu** yn ymwneud â pheidio â thrin rhywun yn wahanol oherwydd pwy ydyn nhw.

# 2. Ynglŷn ag ymddiriedaeth a hyder

Mae'n rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol allu dweud…

**Rwy'n gwneud popeth o fewn fy ngallu i ennill a chadw ymddiriedaeth pobl fel bod ganddyn nhw hyder ynof i.**



Mae'n rhaid i mi wneud y canlynol:

- Bod yn onest ac yn ddibynadwy.
- Cadw gwybodaeth pobl yn breifat a'i rhannu yn y ffyrdd cywir, ar yr adeg iawn, gyda'r bobl gywir.
- Cyfathrebu'n glir fel bod pobl yn gwybod beth sy'n digwydd a pham.
- Parchu gwybodaeth pobl, cartref, eiddo a gweithle.
- Ei gwneud hi'n glir bod rheolau ynghylch cyfrinachedd, ffiniau a derbyn rhoddion y mae'n rhaid i mi eu dilyn. Mae hyn yn amddiffyn pawb.
- Peidio niweidio'r ymddiriedaeth mae pobl yn ei rhoi i mi.
- Gwneud yn siŵr nad oes unrhyw beth rwy'n ei wneud na'r ffordd rydw i'n meddwl yn effeithio ar fy ngallu i wneud penderfyniadau neu gefnogi rhywun.
- Bod yn ddibynadwy ac yn glir ynghylch yr hyn y gallaf ac na allaf ei wneud.

## Cwestiynau

**Ydy Safon 2 yn glir ac yn hawdd ei ddeall?**

Ydy ◯ Nac ydy ◯

**A oes unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen?**

# 3: Ynglŷn â diogelwch a llesiant

Mae'n rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol allu dweud…

**Rwy'n hyrwyddo llesiant pobl ac yn eu helpu i gael dweud eu dweud mewn penderfyniadau wrth eu cadw'n ddiogel.**



Mae'n rhaid i mi wneud y canlynol:

- Hyrwyddo a chefnogi llesiant a diogelwch pobl.
- Helpu pobl i roi gwybod am broblem neu wneud cwyn a'u cymryd o ddifrif.
- Gwrando ar farn pobl a gwneud yn siŵr bod ganddynt reolaeth dros benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.
- Rhannu gwybodaeth mewn ffyrdd diogel a gweithio gydag eraill i hyrwyddo llesiant pobl a'r hyn maen nhw ei eisiau.
- Herio neu roi gwybod am unrhyw bryderon am ddiogelwch unigolyn.

## Cwestiynau

Ydy Safon 3 yn glir ac yn hawdd ei ddeall?

Ydy ◯ Nac ydy ◯

A oes unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen?

**Llesiant** — Bod yn hapus ac yn iach ym mhob rhan o fywyd.

# 4: Cadw pobl yn ddiogel

Mae’n rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol allu dweud…

**Rwy’n sicrhau nad yw pobl yn brifo eu hunain nac eraill, tra’n parchu eu hawliau.**



Mae'n rhaid i mi wneud y canlynol:

- Cefnogi pobl i wireddu eu hawl i gymryd rhan mewn penderfyniadau a gwneud dewisiadau, tra'n cydbwyso unrhyw risgiau i'w diogelwch.
- Dilyn rheolau, polisïau ac arferion diogelu.
- Gwneud asesiadau risg i wirio bod pobl yn ddiogel.
- Cymryd camau i leihau unrhyw risg o niwed.
- Sicrhau bod gweithwyr eraill yn gwybod am unrhyw risgiau a chanlyniadau asesiadau risg.

## Cwestiynau

Ydy Safon 4 yn glir ac yn hawdd ei ddeall?

Ydy ○ Nac ydy ○

A oes unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen?

# 5: Ynglŷn ag ymddiriedaeth y cyhoedd

Mae'n rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol allu dweud…

**Rwyf bob amser yn gweithredu gyda gonestrwydd fel y gall y cyhoedd fod â hyder yn y proffesiwn gofal cymdeithasol p'un a wyf yn y gwaith, y tu allan i'r gwaith, ar-lein neu wyneb yn wyneb.**



Mae'n rhaid i mi wneud y canlynol:

**Uniondeb** — bod yn onest a gwneud y peth iawn ym mhob rhan o fywyd.

- Peidio â cham-drin, esgeuluso, neu fanteisio ar unrhyw un.
- Dilyn y rheolau bob amser ar sut i drin eraill a chadw ffiniau proffesiynol.
- Peidio cael unrhyw berthynas bersonol amhriodol â'r bobl rwy'n eu cefnogi.
- Gadael i'm cyflogwr wybod am unrhyw beth a allai achosi problem neu effeithio ar fy ngwaith.
- Peidio byth â thorri'r gyfraith.
- Dweud wrth fy nghyflogwr os caf fy arestio neu fy nghyhuddo o drosedd.
- Peidio â rhoi fy hun nac unrhyw un arall mewn perygl.
- Peidio ag ymddwyn mewn ffordd, yn y gwaith neu'r tu allan i'r gwaith, byddai hynny'n gwneud i rywun gwestiynu fy ngallu i fod yn weithiwr gofal cymdeithasol.

## Cwestiynau

Ydy Safon 5 yn glir ac yn hawdd ei ddeall?

Ydy ◯ Nac ydy ◯

A oes unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen?

# 6: Ynglŷn â gwella ansawdd gofal

Mae’n rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol allu dweud…

## Rwy’n atebol ac yn gyfrifol am ansawdd fy ngwaith, wrth wella fy ngwybodaeth a’m sgiliau.



Mae'n rhaid i mi wneud y canlynol:

- Darllen, deall a dilyn yr holl bolisïau, rheolau a safonau.
- Gweithio bob amser yn y ffyrdd gorau a bod yn ddiogel.
- Cadw cofnodion clir a chyfredol.
- Dweud wrth fy nghyflogwr neu fy rheolwr am unrhyw beth a allai effeithio ar fy ngwaith.
- Gofyn am help pan fyddaf ei angen.
- Bod yn agored ac yn onest pan fydd pethau'n mynd o chwith — gan esbonio beth ddigwyddodd a chymryd rhan mewn unrhyw ymchwiliad y gofynnir i mi ei wneud.
- Gwneud hyfforddiant sy'n gwella fy ngwybodaeth a'm sgiliau.
- Ymgysylltu â rheolwyr pan fyddant yn gwirio fy ngwaith fel fy mod yn gwella.
- Gweithio gydag eraill, eu cefnogi a dysgu oddi wrth eu harferion da.
- Bod yn gyfrifol am ganlyniadau, hyd yn oed pan fyddaf yn gofyn i weithwyr eraill helpu.
- Cymryd rhan mewn unrhyw ymchwiliad am fy ngwaith, neu waith rhywun arall, pan ofynnir i mi wneud hynny.

## Cwestiynau

Ydy Safon 6 yn glir ac yn hawdd ei ddeall?

Ydy ◯ Nac ydy ◯

A oes unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen?

# 7: Ynglŷn â rheolwyr ac arweinwyr

Mae'n rhaid i reolwyr ac arweinwyr gofal cymdeithasol allu dweud…

**Rwy'n gyfrifol ac yn sicrhau bod unrhyw staff yn gwybod am y Cod hwn ac yn ei ddilyn.**



Mae'n rhaid i mi wneud y canlynol:

- Sicrhau bod pob gweithiwr yn teimlo'n ddiogel i siarad â mi am eu gwaith a mynegi pryderon.
- Sicrhau bod pob gweithiwr yn gwybod am y Cod hwn a sut mae'n effeithio ar eu gwaith.
- Sicrhau bod pob gweithiwr yn cael hyfforddiant pan fyddant yn dechrau gweithio, a llawer o gyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau.
- Gwirio gwaith fy nhîm, rhoi adborth a chefnogaeth iddynt.
- Adolygu adborth a chwynion gan bobl sy'n cael cefnogaeth.
- Ymateb i unrhyw bryderon neu gwynion yn gyflym.

## Cwestiynau

Ydy Safon 7 yn glir ac yn hawdd ei ddeall?

Ydy ◯ Nac ydy ◯

A oes unrhyw beth ar goll neu'n ddiangen?

# Diolch am gymryd rhan

Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill?



## Amdanoch chi

1. Rydyn ni eisiau gwybod mwy amdanoch chi felly ticiwch un: (Peidiwch â rhoi eich enw neu fanylion personol eraill i ni)

- ◯ Rwy'n blentyn (o dan 12)
- ◯ Rwy'n berson ifanc (13 i 18 oed)
- ◯ Rwy'n oedolyn ifanc (19 i 25 oed)
- ◯ Rwy'n rhiant neu'n ofalwr
- ◯ Rwy'n weithiwr gofal cymdeithasol
- ◯ Rwy'n rheolwr gofal cymdeithasol
- ◯ Rwy'n ateb ar gyfer sefydliad

  Enw eich sefydliad:

  Ydy hi'n iawn cyhoeddi enw eich sefydliad yn ein hadroddiad? ◯ Ydy ◯ Nac ydy

  Math o sefydliad?

- ◯ Arall

I ateb y cwestiynau ar-lein, cliciwch neu sganiwch:

**Anfonwch eich atebion i:**

codau@gofalcymdeithasol.cymru

Gofal Cymdeithasol Cymru, Llawr 6, Southgate House, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW
neu gofynnwch am amlen gyda chyfeiriad a stamp yn: codau@gofalcymdeithasol.cymru a byddwn yn anfon un i chi.

erbyn 18 Rhagfyr 2024

I gael gwybod mwy ewch i:
gofalcymdeithasol.cymru/ymgynghoriadau/newidiadau-codau-ymarfer-proffesiynol



## Sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth

Mae eich preifatrwydd a'ch diogelwch yn bwysig, felly rydyn ni'n defnyddio gwybodaeth yn y ffyrdd cywir ac yn dilyn y gyfraith — Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU).

Bydd ein staff yn gweld eich atebion ac yn eu defnyddio i ysgrifennu adroddiad.

Pan fyddwn ni'n cyhoeddi'r adroddiad rydyn ni'n sicrhau nad oes unrhyw un yn gwybod pwy ddywedodd beth. Mae'n ddienw, oni bai eich bod yn sefydliad sydd wedi dweud wrthon ni y gallwn ddweud wrth bobl beth wnaethoch chi ei ddweud.

Os ydych chi yn ein hadroddiad, gallai'r wybodaeth fod ar gael am amser hir. Mae'r wybodaeth nad yw'n cael ei chyhoeddi yn cael ei chadw am bum mlynedd yn unig.

Os ydych chi eisiau gwybod rhagor am sut mae eich gwybodaeth yn cael ei chadw a'i defnyddio cysylltwch gyda'r:

Swyddog Diogelu Data
Gofal Cymdeithasol Cymru, Southgate House, Wood Street, Caerdydd, CF10 1EW

FOI@gofalcymdeithasol.cymru

Gallwch hefyd gysylltu gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

0330 414 6421 neu 02920 678 400

wales@ico.org.uk

ico.org.uk